



TTC 2000 Cyf Cwrs Adsefydlu Yfed a Gyrru (DDR) Telerau ac Amodau
Yn weithredol o Fai 2021

GWYBODAETH BWYSIG - WRTH ARCHEBU LLE AR GWRS GYDA TTC 2000 CYF, RYDYCH YN CYDSYNIO Â'R TELERAU AC AMODAU CANLYNOL

Mae'r Telerau ac Amodau hyn yn disodli unrhyw sylwadau neu drefniadau blaenorol ac yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon mewn perthynas â'r cyrsiau DDR. Mae unrhyw amodau eraill, boed yn ddatganedig neu ymhlyg, wedi'u heithrio. Nid oes gan unrhyw weithiwr nac asiant o'r Grŵp TTC yr awdurdod i addasu neu ategu'r amodau hyn.

1. Archebu lle ar gwrs

- Gellir dod o hyd i fanylion ein holl gyrsiau ac archebu lle arnynt ar-lein trwy fynd i www.thettcgroup.com neu fel arall gellir ffonio aelod o'r tîm cymorth cwsmeriaid ar 0330 0241805. Anfonir cadarnhad o'ch cwrs o fewn 7 diwrnod trwy'r post neu drwy e-bost os yw cyfeiriad e-bost wedi ei ddarparu. Os na fyddwch yn derbyn cadarnhad o'ch cwrs o fewn 7 diwrnod, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â TTC 2000 Cyf i gadarnhau dyraniad eich cwrs. Os oes unrhyw un o'ch manylion ar goll, yn anghywir neu wedi newid, rhaid i chi gysylltu â TTC 2000 Cyf
- Anfonir manylion mewngofnodi ar gyfer unrhyw gwrs digidol trwy e-bost a SMS cyn pen 24 awr o amser cychwyn eich cwrs
- Nid oes gan TTC unrhyw reolaeth dros ddyddiad cwblhau eich cwrs oherwydd i hwnnw gael ei bennu gan y Barnwr ar yr adeg y cawsoch eich dedfrydu. Dim ond cyrsiau y gellir eu cwblhau cyn y dyddiad hwn y gall TTC gynnig i chi
- Cynigir cyrsiau yn Saesneg ac yn yr iaith Gymraeg

2. Ffi / Taliad am y cwrs

- Rhaid talu am gyrsiau a drefnir ar-lein yn llawn adeg archebu. Os ydych yn dymuno talu mewn rhandaliadau, mae angen lleiafswm blaendal o £30 adeg archebu na ellir ei ad-dalu. Rhaid talu ffi am y cwrs yn llawn o leiaf 21 diwrnod cyn dyddiad cychwyn y cwrs neu fel arall bydd eich lle yn cael ei ganslo, ac nid ad-delir unrhyw ffioedd a dalwyd.
- Rydym yn cadw'r hawl i adolygu prisiau y cyrsiau pryd bynnag y bo'n angenrheidiol yn ein barn ni, ac mae'r prisiau hyn yn destun newid heb rybudd ymlaen llaw. Ar ôl i le ar gwrs gael ei archebu gennych chi, bydd y pris y cytunwyd arno ar yr adeg archebu yn derfynol ac ni fydd y pris rydych wedi'i dalu (neu wedi cytuno i'w dalu os ydych chi'n talu mewn rhandaliadau) yn newid oni bai ei fod yn destun i ffioedd aildrefnu neu ganslo.

3. Aildrefnu / canslo lle ar gwrs

- O dan Reoliadau Contractau Defnyddwyr 2013, mae gennych hawl i ganslo'ch lle ar gwrs cyn pen 14 diwrnod (y "Cyfnod Canslo") o'r dyddiad y gwnaethoch chi archebu'r lle. Fodd bynnag, collir eich hawl i ganslo a chael ad-daliad llawn os archebwch ddyddiad cwrs yn ystod y Cyfnod Canslo (dan yr amgylchiadau hyn mae gennych hawl i gael ad-daliad rhannol o £ 75.00 a dylech gysylltu â ni i drefnu hyn). Os ydych chi am aildrefnu neu ganslo cwrs o 15 diwrnod ar ôl archebu'ch lle, ond fwy na 21 diwrnod cyn dyddiad cyntaf eich cwrs, codir ffi aildrefnu / ganslo o £ 30. Os ydych yn methu â mynychu'ch cwrs neu'n rhoi llai na 21 diwrnod o rybudd yna codir ffi aildrefnu o £ 75.
- Bydd TTC 2000 Cyf yn gwneud pob ymdrech i redeg yr holl gyrsiau a drefnwyd, ond os yw'r galw am gwrs yn isel iawn bydd yn cael ei ganslo. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn rhoi o leiaf 20 diwrnod o rybudd canslo i chi. Yna cynigir dyddiadau amgen i chi (os yw amser yn caniatáu) cyn y dyddiad cwblhau a bennwyd gan y llys ar adeg y ddedfryd, neu bydd gennych yr opsiwn o ganslo a derbyn ad-daliad llawn. Ni fydd TTC 2000 Cyf yn atebol nac yn gyfrifol am unrhyw golledion ariannol, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a geir o ganlyniad i unrhyw un o'i gyrsiau yn cael ei ganslo neu ei ohirio.
- Os byddwch chi'n methu â chwblhau unrhyw ddiwrnod o'ch cwrs, eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â TTC 2000 Cyf i aildrefnu'r cwrs, a bydd angen i chi fynychu'r holl sesiynau eto.



- d) Mae'r aildrefniadau cyrsiau uchod yn amodol ar ddigon o amser cyn eich Dyddiad Cwblhau

4. Gofynion Arbennig

- a) Gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer unrhyw anghenion arbennig ar yr amod y rhoddir gwybod i TTC 2000 Cyf ymlaen llaw. Rhwch wybod inni, os gwelwch yn dda, ar adeg archebu, am unrhyw anghenion penodol yr ydych am inni eu hystyried, er enghraifft: yr angen am ofalwr personol, nam, anabledd ac/neu anawsterau mynediad, yr angen am fwydo ar y fron neu'r angen am i gyfieithydd fod yn bresennol.
- b) Os oes angen Cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu Adroddwr Llais-i-Destun arnoch chi, rhwch wybod i ni adeg archebu - nid oes unrhyw dâl am hyn. Fodd bynnag, os yw cyfieithydd BSL neu Adroddwr Llais-i-Destun wedi'i archebu a chithau'n methu â mynychu'r cwrs, efallai y codir ffi aildrefnu a thâl am i'r cyfieithydd neu'r adroddwr fynychu cwrs pellach gyda chi.
- c) Os ydych chi'n mynychu cwrs digidol a TTC wedi trefnu Cyfieithydd BSL i chi, ni allwch ddefnyddio ffôn symudol na chyfrifiadur llechen ar gyfer y cwrs gan na ellir gweld y Cyfieithydd BSL ar eich sgrin. Mae angen defnyddio gliniadur neu gyfrifiadur penbwrdd.
- d) Cyflwynir y cwrs yn yr iaith Saesneg. Eich cyfrifoldeb chi yw darparu cyfieithydd (yr isafswm oedran yw 18 oed) sydd ag adnabod ffotograffig, os yw'ch meistrolaeth ar y Saesneg yn golygu y byddech chi'n ei chael hi'n anodd deall y cwrs. Os yw'r hyfforddwr o'r farn nad yw'ch dealltwriaeth o lefel foddhaol, cewch eich gwahardd a bydd ffi aildrefnu o £75 (ar yr amod bod digon o amser cyn eich dyddiad cwblhau a bennwyd gan yr llys ar adeg y ddedfryd). Cysylltwch â TTC 2000 Cyf os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn.

5. Prawf Adnabod

- a) Mae'n ofynnol eich bod yn darparu prawf adnabod ffotograffig ar bob diwrnod o'r cwrs fel rhan o'r broses gofrestru. Rhaid i'r prawf adnabod ffotograffig fod yn ddogfen wreiddiol (ni dderbynnir copïau digidol), fel pasbort, trwydded deithio neu brawf adnabod gwaith. Os nad oes gennych brawf adnabod ffotograffig, rhaid i chi ddarparu dau fath arall o brawf adnabod megis bil cyfleustodau diweddar, cyfriflen banc a cherdyn credyd / debyd, ac mae'n rhaid i un ohonynt gynnwys eich cyfeiriad cartref. Bydd methu â darparu prawf adnabod o'r fath yn arwain at eich gwahardd o'r cwrs, ac bydd cofnod nad ydych wedi'i gwblhau.
- b) Mae cynnig y cwrs yn amodol fel rhan o'r ddedfryd a osodwyd gan y llysoedd, ac mae'n anghyfreithlon ceisio camgyfleu gwir hunaniaeth y modurwr a gafwyd yn euog trwy fynychu'r cwrs yn lle rhywun arall. Bydd twyllwyr yn cael eu darganfod, a'u henwau yn cael eu rhoi i'r heddlu, ac wedyn byddant yn wynebu cael eu harestio am y drosedd hon.
- c) Os, am resymau personol neu grefyddol, byddwch yn dewis gwisgo ffurf o benwisg, neu eitem o ddillad yn ystod y cwrs a fydd yn gorchuddio eich wyneb yn llwyr neu'n rhannol, mae'n rhaid i chi roi gwybod i TTC 2000 Cyf cyn eich cwrs fel y gellir gwneud trefniadau angenrheidiol i brofi'ch hunaniaeth. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni ymlaen llaw, efallai y byddwch yn cael eich gwahardd o'r cwrs. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnig dyddiad arall, cyn belled â bod digon o argaeledd ac amser o fewn eich dyddiad cwblhau a bennwyd gan y llys. Bydd angen ffi aildrefnu bellach. Am fanylion y ffioedd aildrefnu, gweler adran 3.

6. Gofynion Cwrs Digidol

- a) Er mwyn mynychu'r cwrs ar-lein, rhaid i chi gael mynediad at un o'r canlynol:
 - Cyfrifiadur neu liniadur – Ein cyngor yw peidio â defnyddio Chromebooks. Mae wedi dod i'n sylw nad ydynt yn caniatáu unrhyw ddiweddariadau ap o fewn Zoom, a hynny yn gallu eich atal rhag cwblhau cwrs.
 - Cyfrifiadur llechen
 - Ffôn Symudol

Rhaid bod gan bob dyfais:

- ✓ Mynediad i'r Rhyngwryd
- ✓ Camera Gwe
- ✓ Microffon
- ✓ Seinyddion neu glustffonau



- ✓ Cysylltiad Rhyngrwyd parhaus
- ✓ Digon o drydan yn y batri i barhau am 5 awr o leiaf

- b) **RHAID** i chi wneud yn siŵr eich bod wedi profi'ch offer a'ch bod yn hyderus am ei ddefnyddio cyn mynychu'r cwrs Dosbarth Digidol. Dylech lawrlwytho'r ap Zoom cyn y cwrs, ac argymhellir cychwyn cyfarfod arbrofol gydag aelod o'r teulu / ffrind i wirio bod eich dyfeisiau'n gweithio a'ch bod yn gyfarwydd â'r ffordd o'u rheoli.
- c) Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych chi ddigon o ddata wrth gefn ar y rhyngrwyd i alluogi'ch dyfeisiau i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. **RHAID** i'ch cyflymderau rhyngrwyd fod yn uwch na'r gofynion sylfaenol ar gyfer galwadau fideo grŵp fel y nodir ar <https://support.zoom.us/hc/en-us/articles/201362023-System-Requirements-for-PC-Mac-andLinux>
- d) Mae gwarchod cyfrinachedd ein cleientiaid yn hollbwysig, felly mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr na all neb heblaw mynychwr y cwrs weld eich sgrin. Rydym yn argymhell eich bod yn dilyn y cwrs ar-lein mewn ystafell breifat (heb unrhyw beth i dynnu eich sylw) gyda'ch sgrin yn wynebu wal i atal cynnwys y cwrs rhag cael ei weld. Mae'n ofynnol gallu canolbwyntio a chymryd rhan yn llwyr trwy gydol y cwrs, felly mae lle tawel yn hanfodol i gwblhau'r cwrs.

7. Mynychu/Cwblhau Cwrs

- a) Mae cwblhau'r cwrs yn foddhaol yn dibynnu ar eich presenoldeb trwy gydol y sesiynau ac ar wneud cyfraniad llawn a chadarnhaol. Os byddwch chi'n gadael y cwrs cyn iddo orffen neu fethu unrhyw ran o'r cwrs yna bydd cofnod nad ydych wedi'i gwblhau.
- b) Rhaid i chi gyrraedd/fewngofnodi mewn pryd. Os ydych chi'n hwyr, gwrthodir mynediad i chi ac fe'ch cofnodir fel un sydd heb gwblhau, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu digon o amser i baratoi eich hunain a theithio lle bo hynny'n berthnasol. Disgwylir i chi hefyd ddychwelyd yn brydlon o unrhyw seibiannau rhwng sesiynau'r cwrs. Os gwrthodir mynediad, rhaid i chi gysylltu â'n swyddfa ar unwaith ar 0330 024 1805. Codir ffi aildrefnu am ail-archebu lle ar gwrs.
- c) Amod y cwrs yw eich bod chi'n cyflwyno'ch hun mewn cyflwr addas, nad ydych wedi blino nac o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Os oes digon o amser, efallai y gallwch aildrefnu eich cwrs os ydych yn teimlo nad ydych mewn cyflwr addas i gymryd rhan; codir ffi aildrefnu am hyn. Os, wrth ichi fynychu'r cwrs, ystyrir eich bod mewn cyflwr anaddas neu os ydych yn methu â chymryd rhan yn llawn, cewch eich eithrio o'r cwrs ac bydd cofnod nad ydych wedi'i gwblhau.
- d) **Bydd unrhyw dystiolaeth o yfed alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn arwain at gael eich tynnu o'r cwrs ar unwaith. Efallai na chynigir cyrsiau pellach, a gall hyn arwain at roi Rhybudd o Ddiffyg Cwblhau**
- e) Rydych chi'n gyfrifol am eich gwedd yn gyffredinol, a'ch hylendid personol wrth fynychu'r cwrs. Ni ddylech wisgo dillad sy'n debygol o achosi embaras neu dramgwydd i chi'ch hun neu i eraill.
- f) Nid oes prawf yn y cwrs y mae'n rhaid ei basio. I gwblhau'r cwrs, rhaid i chi fod yn y sesiynau yn brydlon, cymryd rhan yn weithredol, a chyfrannu'n adeiladol at drafodaethau a gweithgareddau trwy'r cwrs.
- g) Gwaherddir defnyddio ffonau, gliniaduron, offer recordio neu ddyfeisiau electronig eraill yn llwyr yn ystod unrhyw sesiynau mewn dosbarth
- h) Rhaid i fynychwyr barhau i barchu staff a mynychwyr eraill y cwrs; bydd unrhyw ymddygiad ymosodol, bygythiol neu aflonyddgar ar unrhyw adeg, yn arwain at gael eich gwahardd o'r cwrs ar unwaith ac at roi Rhybudd o Ddiffyg Cwblhau. Ni roddir unrhyw gynnig cwrs pellach
- i) Ni chaniateir cefndiroedd / hidlwyr rhithiol yn ystod cyrsiau digidol. Rhaid i chi sicrhau nad oes unrhyw ddelweddu na chefnidiroedd yn weladwy a allai beri tramgwydd i fynychwr arall
- j) Mae'r holl gyrsiau wedi'u cloi i ddefnyddwyr sy'n tu allan i'r DU a hynny at ddibenion diogelwch. Efallai y byddwch yn dal i allu mynychu, ond rhaid i chi roi gwybod i TTC 2000 Cyf o leiaf 72 awr cyn amser cychwyn y cwrs fel ein bod yn gallu datgloi'r cwrs i chi.
- k) Rhaid cadw at holl fesurau diogelwch COVID-19

8. Diffyg cwblhau'r cwrs

- a) Os na fyddwch yn mynychu unrhyw un o'ch diwrnodau cwrs, neu os gwrthodir mynediad ichi, neu os cewch eich eithrio ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs, yna rhoddir Rhybudd o Ddiffyg Cwblhau. Os bydd salwch, profedigaeth neu amgylchiadau eithriadol eraill yn eich atal rhag mynychu, rhaid i chi roi gwybod i ni ar y cyfle cyntaf a darparu dogfennaeth ategol (ee llythyr gan eich meddyg teulu). Bydd TTC 2000 Cyf yn adolygu pob



achos yn ôl ei rinweddau, gan ddefnyddio ei ddisgresiwn, ac efallai y bydd yn cynnig ad-dalu ffioedd y cwrs yn rhannol / llawn, neu, os yw amser yn caniatáu, eich symud i gwrs newydd.

- b) Bydd methu â thalu ffi lawn y cwrs hefyd yn golygu y byddwch yn cael Rhybudd o Ddiffyg Cwblhau

9. Course completion

- a) Ar ôl cwblhau cwrs yn llwyddiannus, bydd TTC 2000 Cyf, ar eich rhan, yn hysbysu'r llys perthnasol lle cawsoch eich dedfrydu. Yna bydd y llys hwnnw yn hysbysu'r DVLA o'r dyddiad newydd ar gyfer adfer eich trwydded yrru yn gynnar. Dim ond wedyn y byddwch chi'n gallu gwneud cais am gael eich trwydded yrru yn ôl. Os ydych wedi eich dynodi'n Droseddwr Risg Uchel (HRO), bydd gofyn i chi hefyd gael archwiliad meddygol gyda meddyg penodedig.
- o Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yma:
<https://www.gov.uk/driving-disqualifications/disqualification-for-drink-driving>
 - o Mae'r broses yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon a gellir dod o hyd i fanylion yma:
<https://www.nidirect.gov.uk/articles/getting-licence-back-after-disqualification>
- b) Eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â TTC 2000 Cyf os nad ydych wedi derbyn eich tystysgrifau cwblhau 21 diwrnod ar ôl cwblhau eich cwrs

10. Privacy policy

- a) Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod eich preifatrwydd yn cael ei warchod. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yn cael ei chadw gan TTC 2000 Cyf ac yn cael ei gwarchod yn unol â'n gofynion cyfreithiol a rheoliadol. Ni fydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i unrhyw drydydd partïon nac yn cael eu defnyddio at ddibenion marchnata a hynny yn unol â Deddf Diogelu Data (1998), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2016) a'r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (2003). Rhoddir mynediad i'ch gwybodaeth a gedwir gan TTC i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (HMCTS) at ddibenion gwirio statws cwblhau eich cwrs. Gellir dod o hyd i'n polisi preifatrwydd llawn trwy fynd i www.thettcgroup.com/privacy-policy/
- b) Gwaherddir yn llwyr ffilmio a / neu recordio neu atgynhyrchu neu bostio unrhyw ran o gwrs ar gyfryngau cymdeithasol gan fod hyn yn torri deddfau diogelu data a phreifatrwydd y mynychwyr.

Mae TTC 2000 Cyf yn cadw'r hawl i newid, diweddarau, neu ddiwygio'r telerau ac amodau hyn ar unrhyw adeg heb rybudd ymlaen llaw.